



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer
Twristiaeth 2013 – 2020

Partneriaeth ar gyfer Twf

Gŵyl, Parc Cyfarthfa



ISBN argraffu 978 0 7504 8784 9
ISBN digidol 978 0 7504 8785 6
© Hawlfraint y Goron 2013
G/MH/4814 / 0613 / WG18877

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
• Strategaeth dwristiaeth i Gymru	4
• Pwysigrwydd Twristiaeth	6
• Gweledigaeth ac Uchelgais	7
Twristiaeth yn ei Chyd-Destun	11
• Y Profiad i Dwristiaid	12
• Y Farchnad Dwristiaid	13
Uchelgais ar gyfer Tyfu	15
Y Fframwaith Strategol	17
• Ffocws: Hyrwyddo	18
• Ffocws: Datblygu'r Cynnyrch	19
• Ffocws: Pobl	22
• Ffocws: Perfformiad Proffidiol	24
• Ffocws: Meithrin lle	25
Gwahoddiad	26

Rhagair y Gweinidog

Mae gan dwristiaeth lawer i'w gynnig i'n cymunedau ni yma yng Nghymru. Dyma pam fy mod i wedi ychwanegu Twristiaeth at fy mhortffolio o sectorau allweddol yr economi, ac wedi rhoi'r dasg allweddol o lywio'r gwaith o baratoi'r strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth, a fyddai'n sbarduno twf cynaliadwy yn y sector hyd at 2020, yn nwylo Panel y Sector Twristiaeth. Rwy'n hyderus y bydd twf mewn twristiaeth yn sbarduno rhagor o gynnyrch ac yn ehangu cyflogaeth yn yr economi'n gyffredinol.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant byd-eang ac yn hynod gystadleuol, ond gall Cymru gystadlu gyda'r gorau. Gallwn gynnig diwylliant a threftadaeth gyfoethog, tirwedd â golygfeydd godidog, arfordir unigryw a llond gwlad o brofiadau amrywiol i'n hymwelwyr. Efallai ein bod ni'n wlad fach o ran maint, ond bydd ein huchelgais a'n gallu i weithio mewn ffordd ystwyth gydag ymdeimlad o bwrpas yn helpu i'n gosod ni ar wahân i'n cystadleuwyr.

Y strategaeth hon yw'r sail i Lywodraeth Cymru, y diwydiant twristiaeth a sefydliadau eraill ganolbwyntio ar flaenoriaethau a fydd yn sicrhau sector mwy llewyrchus a chystadleuol. Mae'r economi ymwelwyr yn cyffwrdd pob cymuned o Fôn i Fynwy, ac mae cyfle i roi lle mwy blaenllaw i Gymru ym marchnadoedd y DU a thramor, gan fanteisio ar ein gallu i ddarparu profiadau gwefreiddiol gyda'r gorau yn y byd ym myd diwylliant a chwaraeon. Mae ymchwil yn dangos bod Cymru yn plesio a rhyfeddu ymwelwyr yn gyson. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y byddwn ni'n cyfleu hynny'n well ac yn parhau i fuddsoddi'n hyderus – yn ein cynnyrch a'n pobl – er mwyn gwella'r ansawdd a'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr.

Rwy'n argymhell y strategaeth newydd hon i chi, ac yn cymeradwyo'n llawn yr alwad am undod o ran diben er mwyn creu canolbwynt a bwrlwm ychwanegol i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru.



Edwina Hart MBE CSTJ AC

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth
a Thrafnidiaeth

Canolfan Ymwelwyr Hafod Eryri, Copa'r Wyddfa, Eryri

Cyflwyniad

Strategaeth Dwristiaeth i Gymru

Sefydlwyd Panel y Sector Twristiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Medi 2011, a ofynnodd iddynt arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth a chyfeiriad newydd ar gyfer y sector. Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli ffrwyth eu gwaith sydd wedi cynnwys proses ymchwil a dadansoddi, gwerthuso'r dewisiadau ac ymgysylltu â'r diwydiant twristiaeth.

Strategaeth ar gyfer twristiaeth yn gyffredinol yng Nghymru yw hon, nid Llywodraeth Cymru yn unig. Mae twristiaeth yn cyffwrdd â sawl elfen o bolisiau'r Llywodraeth, gan gynnwys sgiliau a chyflogaeth, cynllunio, adfywio, diwylliant a threftadaeth; mae hefyd yn fanteisiol i sawl sector arall o'r economi gan gynnwys trafndiaeth, manwerthu ac amaethyddiaeth. Felly, mae'n addas bod y strategaeth yn ystyried dylanwadau ehangach twristiaeth ac yn nodi cyfres o ymatebion cydlynys i'r heriau strategol y mae'r sector yn debygol o'u hwynebu yn ystod y cyfnod 2013-2020.

Bydd cynllun gweithredu blynyddol yn cyd-fynd â'r strategaeth, sy'n cyflwyno prosiectau â blaenoriaeth a rhaglenni gwaith. Bydd hefyd yn nodi pwy sydd yn y sefyllfa orau i'w cyflawni. Mae angen ymatebion cynaliadwy a phendant dros gyfnod hir i'r heriau y mae'r sector twristiaeth yng Nghymru yn eu hwynebu, er mwyn eu goresgyn mewn ffordd ystwyth, ond fel gwlad fach, mae gennym fanteision lu o gymharu â'n cystadleuwyr. Gallwn weithio, gallwn feithrin partneriaethau agos a gallwn fesur pa mor dda rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae twristiaeth mewn sefyllfa dda i elwa ar y manteision cystadleuol hyn, ac i ganolbwyntio adnoddau lle byddant yn creu'r canlyniadau mwyaf llwyddiannus i'r economi.

Nawr yw'r amser i bennu cyfeiriad newydd ar gyfer twristiaeth a fydd yn cefnogi twf cynaliadwy yn y sector dros y blynyddoedd nesaf, ac sy'n adlewyrchu'r dylanwadau mewnol ac allanol newidiol sy'n effeithio arno. Mae partneriaeth wrth wraidd y strategaeth hon, gan na ellir sicrhau llwyddiant heb nod cyffredin a gwaith tîm gan y Llywodraeth, y sector preifat a sefydliadau rhanddeiliaid eraill. Mae'r strategaeth hon, felly, yn estyn gwahoddiad i'r diwydiant a chyrff sector cyhoeddus eraill lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i ymgysylltu â'r amcanion hyn a chydweithio i'w cyflawni.

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar waith ymchwil a dadansoddi manwl o'r holl ffactorau sy'n debygol o effeithio ar berfformiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Y nod yw sbarduno enillion twristiaeth uwch er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf i economi Cymru, a helpu i gyflawni'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer twristiaeth a ddiffiniwyd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru:

- Datblygu gweithgarwch twristiaeth a marchnadoedd arbenigol, a sicrhau'r fantais orau bosibl o ddigwyddiadau mawr yn ein lleoliadau amlycaf.
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan drwy gynnig cyfleusterau twristiaeth o safon uchel.
- Gweithio i ymestyn y tymor twristiaeth a'r manteision cysylltiedig.
- Dod o hyd i gyfleoedd cyllid i wella'r seilwaith a'r cynhyrchion ymwelwyr yng Nghymru.
- Cefnogi buddsoddiad mewn hyfforddi a rheoli staff i gefnogi diwydiant twristiaeth o safon uchel.

Bu cynnydd da o ran bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y strategaeth dwristiaeth genedlaethol flaenorol ar gyfer 2006 – 2013, sef *Cyflawni ein Potensial*. Nid yw pethau'n aros yn eu hunfan, fodd bynnag, ac mae cyfleoedd newydd yn codi o hyd, boed o safbwynt datblygu seilwaith, llwyddiannau chwaraeon neu batrymau ymddygiad defnyddwyr. Rhaid cydnabod hefyd bod llawer o'r heriau strategol a nodir yn y ddogfen honno yn parhau hyd heddiw, yn aml oherwydd ffactorau byd-eang. Bydd angen cyfuniad o ymdrechion pendant cyson ar un llaw, a dulliau newydd o feddwl a gweithio ar y llaw arall, er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Mae twristiaeth yn gyfrannwr mawr at economi Cymru ac mae'r rhagolygon ar gyfer twf cynaliadwy pellach yn dda. Mae'r gystadleuaeth, fodd bynnag, yn ffyrnigo, a dim ond y cyrchfannau hynny all fodloni disgwyliadau ymwelwyr a rhagori arnynt fydd yn dod i'r brig ac yn llwyddo orau mewn marchnad lawn. O wneud dim neu fethu â gwneud yn fawr o bob cyfle a ddaw, byddwn yn colli tir yn erbyn ein cystadleuwyr.

Mae gennym gyfoeth diwylliannol ac amgylcheddol fel gwlad, ac mae meithrin talentau rhyfeddol a meddyliau arloesol yn rhan o'n hanes. Nawr, mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol i lwyddo ymhellach, arloesi ym mhob agwedd ar dwristiaeth, o ddatblygu cynnyrch a darparu gwasanaethau i gyfathrebu a phartneriaethau.

Llywodraethu

Mae Croeso Cymru yn rhan o Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan gydnabod cyfraniad hollbwysig y sector twristiaeth at les economaidd a chymdeithasol Cymru o ran creu swyddi a chyfoeth.

Mae rhannau eraill o'r Llywodraeth neu'r sector preifat yn bennaf gyfrifol am nifer o brif elfennau'r strategaeth hon, yn enwedig y rheini sy'n ymdrin â gweithlu medrus a seilwaith effeithiol. Serch hynny, does dim rheswm pam na ddylid eu hystyried fel rhannau pwysig o strategaeth gynhwysfawr ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Er y bydd sawl sefydliad yn cyfrannu at gyflawni elfennau gwahanol y strategaeth

hon, Croeso Cymru – adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am farchnata a datblygu'r sector – fydd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno cymorth y Llywodraeth ar gyfer Twristiaeth.

Cam pwysig gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw cytuno i ail-lunio Panel y Sector Twristiaeth fel Bwrdd cynghori parhaol ar gyfer Croeso Cymru, er mwyn cynghori'r Gweinidog ar weithredu'r strategaeth dwristiaeth. Bydd y Bwrdd yn monitro atebolrwydd Croeso Cymru i'r Gweinidog ac yn hyrwyddo'r cydymdrechion ar draws y Llywodraeth, ac ar yr un pryd, yn ei wneud yn fwy gweladwy i randdeiliaid allanol gan ddilyn esiampyl cyrff twristiaeth cymharol ym mhedwar ban byd.

Bydd strwythurau trefniadol Croeso Cymru yn cael eu hail-alinio yn 2013 hefyd er mwyn ei gwneud hi'n haws gweithio mewn partneriaeth a darparu rhaglenni a phrosiectau'n fwy effeithiol. Ceir deinameg arbennig mewn gwlad fach a gallwn fanteisio ar hynny. Dylai olygu llai o ddyblygu cynrychiolaeth, adnoddau ac ymdrechion, a rhoi egni newydd i'r sector trwy gydweithio o'r newydd.

Y cyd-destun

Mae twristiaeth yn ddiwydiant byd-eang sy'n newid yn gyflym, gyda mwy a mwy o wledydd yn cynnig eu hunain fel cyrchfannau llwyddiannus a deniadol i ymwelwyr. Mae ein prif gystadleuwyr yn y DU – Visit England (51+% o dwf yng ngwariant ymwelwyr), Visit Scotland (18+%) a Northern Ireland Tourist Board (86+%) – wedi gosod targedau twf uchelgeisiol ar gyfer 2013 – 2020. Mae Visit Britaint yn rhagweld cynnydd o 38% yng ngwariant ymwelwyr tramor o'i gymharu â 2010 – cynnydd o £5.1bn, gan gynnal 130,000 o swyddi ychwanegol ledled y DU.

Mae'r ddogfen *Tourism Towards 2030* gan y World Tourism Organisation (UNWTO) yn rhagweld y bydd nifer yr ymweliadau gan dramorwyr â chyrchfannau ledled y byd yn cynyddu 3.3% bob blwyddyn rhwng 2010 a 2030. Byddai'r cynnydd hwnnw'n golygu 1.4 biliwn yn fwy o ymweliadau erbyn 2020 ac 1.8 biliwn erbyn 2030. Disgwylir cynnydd o 2.3% y flwyddyn yng Ngorllewin Ewrop, sy'n llai na'r cyfartaledd, ond a fydd yn dal i ddenu mwy o ymwelwyr tramor nag unrhyw ran arall o'r byd.

Pwysigrwydd Twristiaeth

Mae Is-gyfrif Twristiaeth Cymru (TSA) yn amcangyfrif cyfanswm gwariant o £4.5bn yn 2011 ar dwristiaeth, gan gynrychioli Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) i Dwristiaeth o £1.8bn – tua 4.4% o'r holl GVA uniongyrchol i economi Cymru. Mae'r ymchwil ddiweddaraf yn awgrymu, bod y GVA Twristiaeth yn cynyddu i £2.5 biliwn ar ôl ychwanegu'r effeithiau anuniongyrchol, sef 6% o'r holl economi. Yn 2011, amcangyfrifodd TSA fod 8.3% (88,300) o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru wedi'u cynnal yn uniongyrchol gan wariant twristiaeth. Os ychwanegir effeithiau anuniongyrchol (cadwyn gyflenwi), mae cyfanswm y swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn codi i dros 100,000, sy'n cyfateb i tua 9.5% o holl swyddi FTE Cymru.

Os ydym yn ystyried yr effaith y tu hwnt i'r sector twristiaeth, i gynnwys y sector lletygarwch ehangach (gwestai, bwytai ac arlwygo), dywedodd Oxford Economics yn 2012 fod y diwydiant lletygarwch yng Nghymru yn cyflogi 9.2% (126,000) o'r gweithlu.

Mae twristiaeth yn digwydd ym mhob rhan o Gymru, ac un o'i brif gryfderau yw'r ffaith bod swyddi'r sector twristiaeth wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol o gymharu â sectorau eraill yr economi. Yn 2011, amcangyfrifodd y TSA fod cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn gyfrifol am bron i 1 o bob 5 swydd mewn rhai ardaloedd (Sir Benfro a Chonwy).

Mae cysylltiadau cadwyn gyflenwi twristiaeth yn dod â manteision i lawer o fusnesau bach cynhenid Cymru. Incwm twristiaeth sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant yn aml i lawer o ficrofusnesau. Mae busnesau twristiaeth wedi'u gwreiddio yn y cymunedau a wasanaethant, ac maen nhw yma i aros.

Mae gan dwristiaeth gyfraniad allweddol i'w wneud o ran atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol unigryw a chyfareddol Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol, fel gwlad i ymweld â hi, buddsoddi ynddi a chynnal busnes. Gall helpu i adlewyrchu ein gwir gymeriad a diwylliant, ac mae llwyfannu digwyddiadau o bwys fel Cwpan Ryder, gemau criced cyfres y Llundw a WOMEX 2013 yn helpu i gryfhau ein henw da ym mhedwar ban byd. Mae cyfuniad cymhleth o ffactorau yn dylanwadu ar syniadau pobl am Gymru. Er nad oes modd goresgyn pob un ohonynt yn hawdd, gall brandio cyson a pharhaus helpu i oresgyn cysylltiadau gwan â Chymru a meithrin agweddau cadarnhaol.

Mae twristiaeth yn ymrwymo i dwf cynaliadwy, ac yn sector sy'n llwyr gydnabod bod angen diogelu a gwarchod y nodweddion hynny sy'n denu ymwelwyr i Gymru fel y dirwedd, yr iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan greu gwerth a swyddi tymor hir ar gyfer ein cymunedau i gyd.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant allforio, gyda thros 80% o wariant ymwelwyr yn tarddu o'r tu allan i Gymru, sy'n ffynhonnell bwysig o ran enillion allforio i economi Cymru.

Gweledigaeth ac Uchelgais

Mae gan y strategaeth y **weledigaeth** ganlynol ar gyfer twristiaeth:

Bydd Cymru yn estyn croeso twymgalon, ansawdd eithriadol, gwerth gwych am arian a phrofiadau cofiadwy ac unigryw i bob ymwelydd.

Y **nod** yw sicrhau:

Twf cynaliadwy mewn twristiaeth, a gwneud mwy o gyfraniad at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Yr **uchelgais** yw:

Sicrhau bod enillion o dwristiaeth yng Nghymru yn cynyddu 10% neu fwy erbyn 2020.

Nid ar chwarae bach y mae cyrraedd y targed twf o 10% o safbwynt enillion o dwristiaeth. Byddai cyflawni hyn yn cynrychioli twf o o leiaf 28% a bydd angen i'r diwydiant berfformio'n well o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf well, a hefyd neilltuo adnoddau realistig fydd yn cymharu â buddsoddiad y rheini sy'n cystadlu â Chymru.

Bydd rhai rhannau o'r diwydiant yn gallu gwrthsefyll dylanwad cystadleuwyr a digwyddiadau niweidiol yn well nag eraill. Ni fydd pob ardal o reidrwydd yn gweld yr un lefel o dwf chwaith, gan nad yw Cymru'n cynnig un cynnyrch unffurf ym mhob rhanbarth a'r ffaith y bydd rhai busnesau yn gallu apelio'n well at anghenion cyfnewidiol y farchnad. Fodd bynnag, o gael Llywodraeth Cymru, y diwydiant twristiaeth a rhanddeiliaid eraill i gydweithio i gyflwyno'r strategaeth hon, bydd hynny'n gwella perfformiad twristiaeth yn gyffredinol a fydd maes o law yn gwneud cyfraniad mwy arwyddocaol i gymunedau lleol ym mhob cwr o Gymru.

Bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn ffordd sy'n arwain at greu partneriaethau cryf a chynhyrchiol. Bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r cynnyrch yn unol ag anghenion y farchnad a chreu llwyfannau i fusnesau hyrwyddo eu hunain.

Bydd y newid pwyslais hwn yn golygu **canolbwyntio** ar y canlynol:

Hyrwyddo'r Brand:

- hyrwyddo a marchnata brand cryf, unffurf ac unigryw i Gymru;
- hyrwyddo ar sail cynnyrch sy'n cyfleu rhesymau cymhellol dros ymweld â Chymru;
- targedu'r marchnadoedd hen a newydd sydd fwyaf tebygol o dyfu;
- gwerthu rhagoriaeth trwy'r hyn y gall Cymru ei gynnig – arfordir a chefn gwlad, diwylliant, gweithgareddau, digwyddiadau a chyrchfannau unigryw;

Datblygu Cynnyrch:

- sbarduno buddsoddiad mewn cynnyrch a digwyddiadau o'r radd flaenaf all newid syniadau pobl er gwell;
- gweithio â phartneriaid sydd â hanes o lwyddo a photensial i dyfu;
- pennu blaenoriaeth strategol buddsoddiadau'r Llywodraeth;

Datblygu Pobl:

- hyfforddi ein pobl fel y gallant ffynnu yn y sector twristiaeth;
- defnyddio'u sgiliau i sicrhau cwsmeriaid mwy bodlon a gwella'u profiad cyffredinol;
- newid syniadau pobl am dwristiaeth fel dewis da ar gyfer gyrfa;

Perfformiad Proffidiol:

- meithrin gallu'r diwydiant i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gyrraedd cwsmeriaid posibl a dylanwadu arnyn nhw;
- cynyddu elw busnesau twristiaeth trwy ddulliau fel 'rheoli cynhyrchiant';

Meithrin Lle:

- datblygu cyrchfannau y bydd pobl am ymweld â nhw ac am eu hargymell;
- creu cyfleoedd i gymunedau lleol roi profiadau cofiadwy i ymwelwyr;
- gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn yr awyr, ar y môr, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd.

Sut olwg fydd ar Dwristiaeth yn 2020?

Y Diwydiant	- Mae nifer y swyddi a gynhelir gan dwristiaeth wedi tyfu o 88,300 yn 2011 i 97,130, gyda thwristiaeth yn cyfrannu 4.8% o'r GVA uniongyrchol (o'i gymharu â 4.4% yn 2011). - Mae gweithio mewn partneriaeth yn thema sy'n cwmpasu popeth. Mae angen creu perthynas glir ac effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth, i sicrhau mai gwaith tîm yw'r ffordd naturiol o wneud popeth, hynny ar sail amcanion, llinellau atebolrwydd a chyfrifoldebau clir. - Mae cynaliadwyedd amgylcheddol hefyd yn ganolog i'n ffordd o weithio, gan adeiladu ar enw da Cymru fel arweinydd yn y maes hwn.
Cynnyrch	- Detholiad o lety o'r radd flaenaf, gan gynnwys gwestai moethus mewn cyrchfannau. - Enw da am fwyd a diod lleol o'r radd flaenaf a phrofiadau bwyta rhagorol a chydabyddedig. - Adloniant, atyniadau, gwyliau a digwyddiadau deniadol trwy'r flwyddyn. - Profiadau hawdd eu harchebu mewn cyrchfannau – sydd wedi'u cydnabod. - Busnesau ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg newydd. - Canolfan gynadleda sefydledig o fri rhyngwladol.
Hyrwyddo	- Gwell ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr – y brand yn gyfarwydd iawn. - Cymru'n cael ei gweld fel lle da i ymweld ag ef. - Mwy yn dewis ymweld â Chymru yn hytrach na'i chystadleuwyr.
Pobl	- Gweithlu medrus sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf, sy'n denu'r uchelgeisiol a'r talentog. - Rhwydwaith rhanbarthol o ganolfannau ag enw rhyngwladol ar gyfer dysgu sgiliau lletygarwch, twristiaeth a hamdden. - Safonau pendant o ran darparu gwasanaethau: arddull unigryw o ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi lle canolog i bobl yn ein brand, ynghyd â sgiliau iaith i wasanaethu'r farchnad ryngwladol.
Perfformiad	- Gwella cynhyrchiant busnesau. - Mwy o fuddsoddi yn y diwydiant. - Amrywiaeth o gyfleoedd ar draws y sector sy'n cynnig gyrfaedd deniadol ar lawer o lefelau. - Annog busnesau o'r radd flaenaf sydd â photensial mawr i dyfu. - Amgylchedd sy'n annog entrepreneuriaid a datblygwyr.
Lle	- Lleoedd sy'n cael eu rheoli'n dda y mae pobl am ymweld â nhw. - Rhwydweithiau clir i gefnogi'r gyrchfan. - Caerdydd yn cael ei chydabod trwy'r byd fel Prifddinas dda am wyliau byr. - Cysylltiadau ffisegol a thechnolegol gwell, gan gynnwys maes awyr rhyngwladol ffyniannus a chysylltiadau gwell â meysydd awyr cyfagos yn Lloegr.

Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Camlas Llangollen

Twristiaeth yn ei Chyd-Destun

Y Profiad i Dwristiaid

Mae twristiaeth yn ddiwydiant byd-eang cystadleuol iawn. Mae datblygu pwyslais deinamig ar gwsmeriaid yn hollbwysig, yn ogystal â diffinio'n glir beth sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Gall Cymru gystadlu â'r goreuon diolch i'w diwylliant a threftadaeth gyfoethog, tirwedd â golygfeydd godidog, arfordir unigryw ac amrywiaeth o brofiadau all gyfrannu at les meddyliol a chorfforol ein hymwelwyr. Profiadau'r ymwelwyr fydd yn gwneud Cymru'n wahanol i gyrchfannau eraill ac yn sicrhau ei bod yn aros yn y cof. Gall Cymru ennill y blaen ar ein cystadleuwyr mewn pum maes:

- **Yr Amgylchedd Naturiol:** Un o'r prif resymau pam mae ymwelwyr yn dewis dod i Gymru yw oherwydd ein hamgylchedd naturiol ardderchog a hygyrch. Mae gennym dri Pharc Cenedlaethol, bob un â'i gymeriad arbennig, pum ardal o harddwch naturiol eithriadol, a Llwybr Arfordir 870 milltir – yr unig un o'i fath yn y byd – sydd ar agor ers 2012. Rhaid rhoi ystyriaeth iawn i'r amgylchedd naturiol fel ased pwysig a meddwl sut i'w ddefnyddio i gynyddu twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy;
- **Treftadaeth a Diwylliant:** Hanfod hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru yw'r ddwy iaith fyw yn ogystal ag amrywiaeth a natur groesawgar ein pobl. Mae'r wlad yn frith o nodweddion hanesyddol gan gynnwys tri Safle Treftadaeth y Byd, sy'n adrodd hanes unigryw ein gorffennol ac yn tystio i'n treftadaeth gyfoethog, ac sy'n dod â'r cyfan yn fyw i'n hymwelwyr a'n cymunedau fel ei gilydd;
- **Gweithgareddau ac Antur:** Mae Cymru yn gyrchfan twristiaeth gweithgareddau gyda'r gorau yn y byd. Mae ein mynyddoedd, ein harfordir, ein traethau, ein llynnoedd a'n hafonydd yn gefnlen heb ei hail i bob math o weithgareddau amrywiol gan gynnwys cerdded, hwylio, ogofa, caiacio, mynydda, arforgampau, pysgota, marchogaeth, beicio, beicio mynydd a golff. O'u pecynnu a'u hyrwyddo'n iawn, bydd cynhyrchion antur a gweithgareddau yn rheswm cryf dros ddenu ymwelwyr newydd a rheolaidd.
- **Gwyliau a Digwyddiadau:** Yn ogystal â chalendr llawn o wyliau diwylliannol pwysig, mae Cymru wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau mawr ym myd y campau yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Cwpan Ryder a Chyfres y Lludw. Gyda dau glwb pêl-droed o'r De bellach yn rhan o Uwchgynghrair Lloegr, mae cyfle i adeiladu ar y llwyddiant hwn a chefnogi digwyddiadau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill ym myd y campau a diwylliant er mwyn denu mwy o ymwelwyr gydol y flwyddyn.
- **Cyrchfannau Unigryw:** Ein cyrchfannau yw'r prif sbardun i bobl ymweld â Chymru yn aml. O drefi glan-môr fel Dinbych-y-pysgod a Llandudno, trefi a phentrefi llawn cymeriad fel Portmeirion a'r Gelli Gandryll a dinasoedd bywiog Caerdydd ac Abertawe, gallwn gynnig amrywiaeth o lefydd i aros ac ymweld â nhw, sy'n apelio at farchnad eang.

Y farchnad dwristiaid

- **Y farchnad ddomestig:** Marchnad ddomestig Prydain yw prif farchnad Cymru, a thros gyfnod y strategaeth bydd ein gwaith marchnata'n canolbwyntio ar y farchnad honno. O Brydain y daw 92% o'r holl dripiâu ymwelwyr sy'n aros dros nos ac 84% o'r gwariant gan ymwelwyr sy'n aros dros nos. O fewn hwnnw, y segment gwyliau domestig yw'r segment ymwelwyr pwysicaf a mwyaf gwerthfawr o bell ffordd i Gymru, gyda bron i 6 miliwn o dripiâu ac £1.1 biliwn wedi'i wario gan yr ymwelwyr hyn yn 2012.

Mae Cymru'n dal ei gafael ar ei marchnad graidd, sef ymwelwyr gwyliau domestig ond mae'r gystadleuaeth amdani'n cynyddu. Bydd unrhyw dwf yn y dyfodol yn dibynnu ar gipio cyfran o farchnad ein cystadleuwyr. Bydd angen taro cydbwysedd rhwng targedu ymwelwyr dychwel a marchnadoedd newydd sydd â'r potensial mwyaf i dyfu.

Mae dros hanner yr ymwelwyr sy'n dod ar wyliau neu dripiâu i Gymru yn dod o Gymru ei hun ac o ranbarthau cyffiniol fel Gogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am dros hanner y gwariant yng Nghymru. O fewn cyfyngiadau pellter, ymddengys bod cyfleoedd mawr inni gynyddu cyfran yr ymwelwyr a ddaw ar wyliau o Lundain a De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a De-orllewin Lloegr. Wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth felly, y marchnadoedd daearyddol hyn fydd prif ganolbwynt gwaith marchnata a ariennir gan Croeso Cymru.

- **Y farchnad dramor:** Mae ymwelwyr tramor yn tueddu i wario mwy, ond yn hanesyddol, maen nhw wedi bod yn llai pwysig yng Nghymru, gyda dim ond 8% o'r holl dripiâu dros nos ac 16% o wariant ymwelwyr sy'n aros dros nos. Mae'r Alban, Iwerddon a rhanbarthau Lloegr i gyd yn denu llawer mwy o ymwelwyr tramor na Chymru. O ganlyniad, mae cyfran Cymru o'r holl dripiâu tramor wedi bod yn cwmpo'n raddol o 3.6% i 2.7% rhwng 2002 a 2011, a'i chyfran o'u gwariant o 2.15% i 1.86%.

Dylai Cymru allu elwa ar y twf a ragwelir yn nifer yr ymwelwyr tramor â'r DU. Er hynny, mae rhwystrau arwyddocaol yn dal i gyfyngu ar y twf yma. Mae hynny'n cynnwys diffyg amlygrwydd i frand Cymru a'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid, y cyfryngau a'r cwmnïau teithio o'r hyn y cynigir i ymwelwyr. Problem arall yw'r diffyg cysylltiadau awyr a diffyg blaenoriaeth gan y diwydiant twristiaeth a theithiau i hyrwyddo Cymru dramor hefyd.

Mae'n hanfodol targedu gwaith marchnata'n ofalus, a hynny mewn nifer bach o diriogaethau lle rydym yn adeiladu ar gryfderau presennol, a lle mae cryn botensial i dyfu. Bydd ein gwaith

marchnata a ariennir gan Croeso Cymru, felly, yn canolbwyntio ar dair prif farchnad ryngwladol (Iwerddon, yr Almaen ac UDA/Canada) fel rhan o'r strategaeth newydd.

Nid yw hynny'n golygu y byddwn yn anwybyddu rhannau eraill o'r byd chwaith. Mae deunydd marchnata digidol yn gallu cyrraedd pob cwr o'r byd a byddwn yn cydweithio'n agos â Visit Britain i ddod â chanlyniadau da i Gymru trwy ei rwydwaith o swyddfeydd ledled y byd. Fel y bydd y staff a'r adnoddau sydd gennym yn caniatáu, byddwn yn ymateb yn gyflym i gyfleoedd masnachol penodol fel cysylltiadau awyr uniongyrchol newydd a all godi o dro i dro.

Uchelgais ar gyfer Tyfu

Credwn y dylid bod modd sicrhau cynnydd o 10% neu fwy mewn enillion twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020.

Bydd lefel y cynnydd yn dibynnu ar allu diwydiant twristiaeth Cymru i ddenu a chadw ymwelwyr mewn marchnad mwyfwy cystadleuol a deinamig. Bydd yn anodd cynyddu cynhyrchiant ymwelwyr yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn, pan fo'r farchnad mor sensitif i brisiau. Y ffordd orau i Gymru sicrhau cynnydd cynaliadwy yn ei henillion yn y tymor byr, yw trwy gynyddu nifer y tripiâu a gwerth bob trip trwy ddenu ymwelwyr newydd cynhyrchiant uwch tra'n cadw a chynnal lefel ymweliadau a gwariant ymwelwyr cyfredol.

Mae Visit Britain wedi rhagweld y gallai nifer yr ymwelwyr â gwledydd Prydain gynyddu i 40 miliwn y flwyddyn erbyn 2020. Defnyddiwyd y rhagolygon hyn fel sail i ragweld nifer y tripiâu a gwariant i Gymru o farchnadoedd tramor.

Wrth werthuso'r opsiynau twf amrywiol ar gyfer twristiaeth yn ystod y cyfnod 2013 – 2020, dywedodd Panel y Sector Twristiaeth mai opsiwn twf wedi'i dargedu fyddai fwyaf realistig a phosibl i Gymru. Hwn oedd yr opsiwn a gafodd ei ffafrio fwyaf mewn adborth gan y diwydiant a rhanddeiliaid allweddol hefyd. Ein nod yw cynyddu ein cyfran o farchnad gwyliau Prydain gyda llawer mwy o bwyslais ar farchnata yng Nghymru ei hun ac yn ne-ddwyrain Lloegr.

Ein nod hefyd yw sicrhau twf uwch na'r cyfartaledd mewn ymwelwyr rhyngwladol i Gymru. Byddai hyn yn cynnwys twf mewn tripiâu o amrywiaeth eang o farchnadoedd rhyngwladol a thwf sylweddol hefyd mewn tripiâu a gwariant yn sgil cynyddu ein cyfran o'r farchnad ym marchnadoedd dethol yr Almaen, UDA/Canada ac Iwerddon.

Er mwyn cynyddu'n sylweddol ein cyfran o farchnad wyliau allweddol y DU (gan gynnwys o fewn Cymru), wedi'i hategu gan gyfran uwch o ymwelwyr o'r marchnadoedd rhyngwladol dewisol yn arbennig Iwerddon, yr Almaen ac UDA /Canada, bydd angen mwy o adnoddau marchnata er mwyn cefnogi gweithgarwch rhagweithiol yn y marchnadoedd rhyngwladol dethol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Visit Britain. Byddai'r gallu i drosglwyddo'r cynnydd mewn galw yn sgil hynny drwy wella hygyrchedd, drwy fuddsoddi mewn cynnyrch twristiaeth i ddiwallu anghenion newydd y farchnad a marchnata effeithiol gan y diwydiant twristiaeth, yn amodau allweddol ar gyfer sicrhau twf dewisol.

Wrth dargedu marchnadoedd â photensial gwirioneddol i dyfu, bydd angen i Gymru ganolbwyntio ar ymestyn y tymor ymwelwyr. Mae'r diwydiant yn gweithredu islaw ei allu rhwng mis Hydref a mis Mawrth, a byddai tymor ymwelwyr hwy yn dod â manteision economaidd pwysig i Gymru drwy gynhyrchu gwariant ac incwm ychwanegol a chynyddu nifer y cyfleoedd swyddi amser llawn.

A man and a woman are cycling on a paved path. The woman is in the foreground, wearing a light-colored tank top, khaki pants, a black helmet, and sunglasses, smiling. The man is behind her, wearing a brown cardigan, shorts, and a blue helmet, also smiling. They are both on blue bicycles. In the background, there is a large, round stone tower with a conical roof, surrounded by lush green trees. The scene is bright and sunny.

Y Fframwaith Strategol

Llwybr y Taf, Castell Coch

Ffocws: Hyrwyddo

Gall datblygu hunaniaeth genedlaethol unigryw a nodedig sbarduno buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mesuradwy. Yn y cyd-destun hwn, mae brandio cyrchfannau wedi tyfu'n ddull cynyddol soffistigedig o wahaniaethu rhwng cyrchfannau drwy hyrwyddo'u nodweddion a'u personoliaethau unigryw. Bydd gofyn i frand twristiaeth Cymru atgyfnerthu ac adlewyrchu sefyllfa brand ehangach Cymru.

Wrth hyrwyddo brand twristiaeth i Gymru, byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Neges y brand**

Y nod fydd datblygu brand twristiaeth clir ac apelgar i Gymru sy'n seiliedig ar ein cryfderau gwirioneddol a'n nodweddion unigryw fel cenedl. Rydym am i Gymru gael ei gweld fel lle sy'n falch o groesawu eraill i rannu ei threftadaeth, ei diwylliant, ei harddwch naturiol, ei bwyd a'i lletygarwch cynnes.

- **Naratif y brand**

Mae'n werth ailadrodd ac atgyfnerthu negeseuon clir sy'n ceisio meithrin enw da a chadarnhaol i Gymru. Mae'n bwysig, felly, paratoi naratif sy'n sail i'r gwaith creadigol a'i gadarnhau i bawb sy'n hyrwyddo hunaniaeth dwristiaeth unigryw Cymru. Mae'n hanfodol bod partneriaid y diwydiant yn cydweithio i ledaenu'r naratif trwy ei fabwysiadu a'i ddefnyddio eu hunain, er enghraifft ar ddeunyddiau marchnata, logos, arwyddion a baneri.

- **Strategaeth sy'n seiliedig ar gynnyrch**

Daw'r newid hwn trwy sbarduno strategaeth sy'n seiliedig ar gynnyrch ac sy'n creu rhesymau sy'n cymell pobl i ymweld â Chymru. Cyflwynir y strategaeth fesul cam ac i ddechrau, bydd yn ceisio gwneud y gorau o'r cynnyrch sydd gennym nawr sy'n gallu pwysleisio hynodrwydd Cymru trwy becynnu'n fwy effeithiol. Wedyn, bydd angen datblygu profiadau o'r radd flaenaf gyda rhanddeiliaid a chysylltu'r broses hyrwyddo â'r prosesau archebu a darparu i gwsmeriaid. Er enghraifft, bydd Croeso Cymru'n chwilio am ffyrdd o greu a hyrwyddo platfform a allai helpu busnesau bach a mawr sy'n buddsoddi yng Nghymru i gyrraedd marchnadoedd a datblygu brandiau cryf eu hunain.

- **Brandio arloesol**

Er mwyn sicrhau bod y brand twristiaeth yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn taro tant â'r cwsmeriaid, bydd angen defnyddio pob math o ddulliau arloesol. Er enghraifft, defnyddio Cymry enwog i hyrwyddo brand Cymru a hyrwyddo'n gwlad fel lleoliad gyda'r gorau yn y byd ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu. Nid rhywbeth i dîm ynysig yn unig yw platfformau digidol a'r cyfryngau cymdeithasu yn y byd newydd hwn, ond rheidrwydd trawsbynciol a fydd wrth wraidd ein gwaith hyrwyddo.

Ffocws: Datblygu'r Cynnyrch

Os yw Cymru am ddenu mwy o fusnes o farchnadoedd newydd a chyrraedd targed twf o 10%, bydd gofyn inni weithio gyda'r sector preifat i ddatblygu, marchnata a rheoli'n ddoeth ac effeithiol yn y meysydd lle mae gennym fantais dros ein cystadleuwyr gydol cyfnod y strategaeth. Bydd gofyn inni dargedu buddsoddiadau i wella'r profiad cyffredinol i ymwelwyr os ydym am weld y sector yn tyfu'n hyderus. Bydd angen rhoi rhagor o bwyslais ar weithio gyda'r busnesau a'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi llwyddo yn y gorffennol trwy fuddsoddi ac sy'n awyddus i dyfu ymhellach. Bydd angen mwy o bwyslais ar feysydd twf strategol, a bydd dealltwriaeth o'r farchnad yn dod yn fwy pwysig wrth ystyried sectorau arbenigol fel mordeithiau a golff. Bydd Croeso Cymru yn gofalu na fyddwn yn colli unrhyw gyfleoedd masnachol, o fewn fframwaith y rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

Wrth fuddsoddi mewn cynnyrch i ymwelwyr, byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Ansawdd ac amrywiaeth y cynnyrch**

Mae darparu profiad rhagorol ar bob lefel o weithgarwch busnes yn hollbwysig i Gymru er mwyn gwella'i safle cystadleuol. Mae gwerth am arian mor bwysig ag erioed, ond does dim rheswm pam na all Cymru geisio cynnig y 'ddarpariaeth orau yn y dosbarth' ar draws y sbectrwm. Mae tystiolaeth gref yn dangos bod buddsoddi mewn cyfleusterau o ansawdd uwch, yn enwedig llety, yn arwain at wella perfformiad a chynyddu'r elw. Er nad yw ansawdd y cynnyrch twristiaeth erioed wedi bod yn uwch, mae bylchau pwysig eto i'w llenwi os ydym am wireddu'r weledigaeth o sicrhau rhagoriaeth.

Er enghraifft, does dim digon o westai moethus ym mhen uchaf y farchnad fyddai'n gallu creu enw da a sbarduno galw newydd. Ceir problemau hefyd ynghylch maint, gyda phrinder llety o safon mewn rhai ardaloedd i ddiwallu anghenion a disgwyliadau partïon mawr o ymwelwyr. Mae cyfleoedd hefyd i hyrwyddo darpariaeth a chyfleusterau o safon uwch yn ein sectorau carafanau a hunanarlwyo, a chyflymu'r buddsoddiad calonogol a fu dros y blynyddoedd diwethaf.

Hefyd, er bod gan Gymru ddigonedd o atyniadau amrywiol ar gyfer ymwelwyr, mae angen mwy o atyniadau eiconig, bob tywydd, trawiadol sy'n unigryw i Gymru ac sy'n adlewyrchu diwylliant a chymeriad arbennig ein gwlad.

Yn ogystal â sicrhau'r safon orau yn y dosbarth, rhaid rhoi pwyslais ar brosiectau a all newid agweddau a rhagdybiaethau pobl a sicrhau rhagor o dwf economaidd, a chynyddu swyddi a chyfoeth. Tystiolaeth uniongyrchol o hyn fydd nifer y busnesau sy'n gysylltiedig â'r fenter, a bydd tystiolaeth anuniongyrchol yn cynnwys y gadwyn gyflenwi a'r manteision lluosydd sy'n darparu gwaith i'r gymuned.

● Treftadaeth a Diwylliant

Mae gan Gymru gyfoeth o asedau diwylliannol – diriaethol ac fel arall – yn enwedig yr iaith Gymraeg. Gellir eu defnyddio i adrodd stori ddifyr a dadlennol am Gymru sy'n ein gosod ar wahân i eraill. Mae cyfleoedd i gyfoethogi profiad yr ymwelydd â'n hatyniadau treftadaeth, amgueddfeydd a chanolfannau diwylliannol gan ddiogelu'u llwyddiant tymor hir. Yn wir, mae cydweithwyr o adrannau a sefydliadau eraill fel Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, awdurdodau lleol ac Amgueddfa Cymru eisoes yn cydweithio'n frwd â Croeso Cymru i fynd i'r afael â hyn.

Mae gennym gannoedd o adeiladau o ddiddordeb a chymeriad hanesyddol sy'n ychwanegu gwerth a rhoi stamp unigryw i'n trefi a'n pentrefi; llawer â'r potensial i'w haddasu'n llety gwyliau neu eu defnyddio at ddibenion hamdden a diwylliant. Gallai Llywodraeth Cymru wneud cyfraniad allweddol drwy greu'r amodau cywir a fyddai'n sbarduno buddsoddwyr preifat i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae diwylliant bywiog a byrlymus Cymru yn amlwg yn ein diwydiannau creadigol llwyddiannus, ac mae cyfleoedd i fanteisio ar fuddsoddiad gan bartneriaid amrywiol er mwyn elwa i'r eithaf ar botensial twristiaeth. Mae'r byd ffilm a theledu er enghraifft yn cyflwyno delweddau o Gymru i filiynau, ac yn cynnig cyfleoedd aruthrol i atgyfnerthu argraffiadau cadarnhaol sy'n annisgwyl yn aml hefyd.

Mae lle hefyd i ddefnyddio straeon sy'n adnabyddus trwy'r byd ond sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru, fel chwedl Arthur, ond hefyd holl ddrama a'r straeon epig unigryw sydd ynghlwm wrth ein safleoedd treftadaeth eiconig a Safleoedd Treftadaeth y Byd yma yng Nghymru. Mae hel achau a hanes teulu hefyd yn feysydd sy'n werth ymchwilio ymhellach iddynt fel ffordd o hyrwyddo a meithrin diddordeb yng Nghymru.

● Gweithgarwch a Lles

Mae cefn gwlad ac arfordir, mynyddoedd a dyfroedd mewnol ein gwlad yn cynnig amgylchedd trawiadol i gynnal amrywiaeth o weithgareddau awyr agored. Mae'r datblygiadau diweddar ym maes gweithgareddau awyr agored, fel Llwybr Arfordir Cymru, yn golygu y gallwn ei hyrwyddo fel rhan unigryw o'n pecyn cyffredinol i ymwelwyr yn ogystal â chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i wella iechyd a lles y genedl. Mae'n hanfodol cydweithio'n agos â phartneriaid yn y Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwireddu manteision economaidd a manteision ehangach amgylcheddau naturiol ac adeiledig Cymru.

Mae cyfoeth gerddi Cymru, ynghyd â'r tymor cynyddol lwyddiannus o wyliau yn thema addawol i'w hystyried ymhellach. Mae cerdded (gan gynnwys cyfleusterau fel trosglwyddo bagiau) hefyd yn weithgaredd

sy'n cynnig pob math o ddewisiadau gwahanol i anturiaethwyr o bob gallu.

- **Bwyd a Diod**

Mae Cymru yn gartref i rai o gynhyrchwyr bwyd a diod gorau'r byd yn ogystal â chogyddion o safon ryngwladol hefyd. Mae cynhwysion lleol o'r radd flaenaf, bwyd a diod unigryw a lleoedd bwyta diddorol yn dod yn fwyfwy pwysig i ymwelwyr. Mae ein busnesau lletygarwch gorau yn ennill enw da am safon eu cynnyrch ond nid da lle gellir gwell. Mae angen gwneud mwy i gynyddu nifer y llefydd bwyta o safon ryngwladol a hyrwyddo a darparu bwyd a diod o'r radd flaenaf o Gymru fel rhan o'r profiad cyffredinol i ymwelwyr. Bydd hyn nid yn unig yn helpu i'n gwneud ni'n wahanol i'n cystadleuwyr ond hefyd yn dod â buddiannau economaidd mwy uniongyrchol trwy gryfhau'r cadwyni cyflenwi lleol rhwng cynhyrchwyr a busnesau twristiaeth.

- **Digwyddiadau mawr a gwyliau**

Mae digwyddiadau a gwyliau yn bwysig i dwristiaeth yng Nghymru. Maen nhw'n elfen bwysig o'r profiad i'r ymwelydd, ac yn rhoi llwyfan i'n diwylliant a'n treftadaeth. Maen nhw'n ysgogi'r gymuned i gymryd rhan ac yn cynnig profiad â blas Cymreig arbennig. Mae yna gyfle i gefnogi rhai digwyddiadau newydd all ddod â bri i Gymru, er ei bod hi'n bwysig cefnogi digwyddiadau sy'n bod eisoes, sydd â'r potensial i dyfu ac sy'n helpu i newid y ddelwedd o Gymru.

Trwy lunio calendr o ddigwyddiadau a rhoi digon o gyhoeddusrwydd ymlaen llaw, gallai'r diwydiant ymateb yn bositif i'r cyfleoedd cysylltiedig a gwella profiad yr ymwelydd.

Hefyd, dylai fod cyfleoedd i harneisio'r doniau a'r sgiliau sydd ar lawr gwlad er mwyn creu rhaglenni atyniadol o ddigwyddiadau sy'n gallu cyfoethogi profiadau'r ymwelydd yn fawr.

- **Teithiau Busnes**

Mae'r farchnad cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau'n ysgogi gwariant cymharol uchel gydol y flwyddyn, gyda photensial i gynnig cyfleoedd hamdden i gwsmeriaid busnes. Er hynny, nid ydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddenu niferoedd na gwariant digonol yma yng Nghymru. Byddai datblygu canolfan gynadledda a digwyddiadau ryngwladol yn Rhanbarth y Brifddinas yn sbarduno'r galw yn y farchnad hon. Byddai hynny'n cryfhau brand dinesig Cymru yn ogystal ag annog gweithgarwch rhwng busnesau a'i gilydd ledled Cymru.

- **Hygyrchedd**

Os ydym am weld twristiaeth yn tyfu yng Nghymru, rhaid sicrhau bod ymwelwyr yn gallu teithio i'r wlad ac o'i chwmpas heb gyfyngiadau diangen. Mae'n bwysig ein bod yn hwyluso siwrnai ymwelwyr i bob

cwr o Gymru, boed gyda char neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae yna gyfle i gryfhau'r cysylltiadau â marchnadoedd tramor trwy drafnidiaeth awyr môr, rheilffyrdd a ffyrdd. Rhaid ceisio bodloni gofynion ein holl ymwelwyr, gan gynnwys teithwyr hŷn a chwsmeriaid ag anghenion iechyd a symudedd. Mae'r tollau ar Bontydd Hafren yn anfantais amlwg iawn o safbwynt twristiaeth, a bydd cyfle i adolygu'r trefniadau presennol pan ddaw'r contract gweithredu i ben yn 2018.

Bydd Croeso Cymru yn ystyried hefyd pa mor ymarferol yw cynlluniau cyd-docynnu fel y gall ymwelwyr fwynhau amrywiaeth o atyniadau a systemau trafnidiaeth yn rhwydd a chyfleus gydag un tocyn yn unig.

Mae 'hygyrchedd' digidol hefyd yn hollbwysig. Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru i gyflwyno cysylltiadau band eang ym mhob cwr o'r wlad yn gam allweddol i sicrhau nad yw Cymru dan anfantais o gymharu â chyrchfannau eraill sy'n cystadlu yn ein herbyn. Hefyd, bydd yr oes ddigidol yn creu cyfleoedd i feithrin partneriaethau newydd ac arloesol sy'n ceisio gwireddu potensial y dechnoleg newydd yn llawn.

Ffocws: Pobl

Bydd profiad diddrwg didda i ymwelwyr yn golygu na fyddant yn debygol o ddychwelyd nag yn ein hargymell i eraill. Mae angen gweithlu twristiaeth yng Nghymru all helpu i sicrhau bod pob profiad i ymwelwyr yn un eithriadol. Er mwyn i'r economi ymwelwyr dyfu, mae'n hanfodol buddsoddi yn y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant. Rhaid eu cefnogi, eu datblygu a rhoi'r sgiliau iddynt i roi'r profiad gorau posibl i ymwelwyr. Hefyd, mae'n rhaid i ni gael gwell dealltwriaeth o'r agweddau at dwristiaeth ymhlith y gymuned ehangach sy'n cael effaith ar brofiadau ymwelwyr.

Wrth ddatblygu pobl, byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Gofal cwsmeriaid**

Sgiliau a phroffesiynoldeb yw'r allwedd i greu busnesau proffidiol a chwsmeriaid bodlon. Mae cyswllt ag ymwelwyr, boed yn y porthladd, maes awyr, bwyty, gwesty, atyniad neu ddigwyddiad, yn effeithio ar brofiad cyffredinol yr ymwelydd hwnnw. Rhaid meithrin diwylliant o wasanaethu a lletygarwch er mwyn i'r sector fod yn gystadleuol. Mae angen inni gystadlu o ran ansawdd, cysondeb y gwasanaeth a'r naws am le.

- **Sgiliau sy'n ymateb i'r galw**

Mae angen i'n rhaglenni datblygu sgiliau adlewyrchu gofynion y diwydiant. Mae llawer o sefydliadau gwahanol yn darparu hyfforddiant ac mae'r system gymwysterau yn gallu achosi dryswch i gyflogwyr. Mae angen meddwl am ffyrdd o symleiddio'r system. Byddai datblygu 'fframwaith sgiliau cenedlaethol' yn creu cyfleoedd pellach yn hyn o

beth. Wrth ddatblygu sgiliau twristiaeth, rhaid ystyried hyd a lled y sector, yr amrywiaeth o ddarparwyr sgiliau a'r dulliau dysgu amrywiol sydd ar gael.

- **Sgiliau arbenigol**

Er mwyn i'r sector twristiaeth dyfu, mae angen i ni sicrhau bod gweithwyr y diwydiant yn fwyfwy proffesiynol, gan ganolbwyntio ar feysydd fel sgiliau cogyddion, tywys teithiau, arwain a rheoli, gweithgareddau awyr agored a swyddi rheng flaen, er mwyn diwallu gofynion ymwelwyr yn y dyfodol. Mae sgiliau iaith hefyd yn bwysig i ddiwallu gofynion marchnadoedd tramor. Mae'n bwysig bod y cymwysterau a'r cyfleoedd dysgu hyblyg yn ateb y gofyn ac yn diwallu anghenion go iawn.

- **Newid delwedd twristiaeth fel gyrfa**

Mae yna dybiaeth nad yw twristiaeth yn yrfa dda sy'n cynnig sefydlogrwydd tymor hir na gobaith am ddychafiad. Mae'r syniad traddodiadol hwn am y diwydiant yn gallu arwain at ddiffyg ymgeiswyr o safon sydd, yn ei dro, yn gallu effeithio ar lefel y proffesiynoldeb yn y sector ymwelwyr. Bydd yn bwysig hybu cyfleoedd go iawn i ddatblygu gyrfa yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch. Hefyd, gellid gwella proffil a statws y sector trwy greu rhagor o ganolfan(nau) rhagoriaeth ar gyfer dysgu, datblygu sgiliau ac ymchwilio i letygarwch.

Ffocws: Perfformiad Proffidiol

Mae'r syniad o dwf cynaliadwy mewn twristiaeth yn ganolog i'r strategaeth. Hoffem weld diwydiant twristiaeth llewyrchus sy'n creu buddiannau lleol hirdymor a pharhaol, sy'n cael eu cefnogi a'u croesawu gan gymunedau lleol. Weithiau, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion datblygu ac anghenion rheoli'r amgylchedd mewn ardaloedd sensitif, ond mae'r Panel yn credu bod gan Gymru enghreifftiau lu o brosiectau twristiaeth sy'n cyfoethogi'r amgylchedd lleol.

Fel gwlad fach, gall Cymru ddangos y ffordd i'r byd o ran sicrhau bod twristiaeth yn creu manteision real a mesuradwy. Gellir gwneud hynny drwy sicrhau bod busnesau twristiaeth yn fwy proffidiol a chystadleuol, cynyddu cyfran yr incwm sy'n aros yn yr ardal trwy'r cadwyni cyflenwi a gwella ansawdd swyddi twristiaeth.

Wrth sicrhau perfformiad proffidiol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Meithrin gallu**

Y busnesau mwyaf llwyddiannus yw'r rheini sy'n ymateb yn dda i anghenion y farchnad, yn addasu eu cynnyrch a'r modd maen nhw'n cyfathrebu â'u cwsmeriaid. Yn hyn o beth, mae cyfle i fusnesau twristiaeth Cymru fod yn fwy arloesol a defnyddio technolegau digidol

i ddosbarthu a marchnata'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig i gynulleidfa fyd-eang. Ond mae arloesi'n golygu mwy na'r digidol yn unig. Mae'n golygu mentro a bod yn wahanol – pethau y mae'r sector preifat yn eu gwneud yn well. Gall y Llywodraeth helpu i feithrin diwylliant o arloesedd drwy ddangos esiamp a lledaenu arferion da.

Byddwn yn treialu Cronfa Arloesi newydd a fydd yn cynnig help ariannol am amser cyfyngedig i brosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac sydd â dyfodol cynaliadwy. Mae cyfle i gynnig cymysgedd o gymorth cyfalaf a chymorth refeniw yn ogystal â chymorth mentora a chynghori, lle bo'r angen, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i brosiectau lwyddo.

● **Rheoli cynhyrchiant**

Mae ymwelwyr dros nos â Chymru yn gwario llai ar gyfartaledd, nag ymwelwyr cyrchfannau sy'n cystadlu yn ein herbyn. Mae hynny'n rhannol oherwydd natur ein cymysgedd o ymwelwyr – mae Cymru'n denu nifer cymharol uchel o ymwelwyr hamdden a chyfran isel o ymwelwyr busnes. Ceir cyfleoedd i farchnata Cymru i ymwelwyr sy'n gwario mwy a hefyd datblygu ffyrdd mwy proffesiynol o reoli cynhyrchiant yn y diwydiant. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi mwy o resymau i'n hymwelwyr wario mwy ac aros yn hirach er mwyn inni allu gwireddu'n uchelgais o dyfu fel diwydiant. Rhaid i ni ganolbwyntio bob amser ar ddiwallu anghenion newidiol ein cwsmeriaid, a sicrhau ein bod yn gallu cynnig y gorau yn y dosbarth a darparu'r gwerth gorau ar bob lefel o dwristiaeth.

Ffocws: Meithrin Lle

Mae cyrchfannau twristiaeth llwyddiannus yn cynnig amgylchedd o'r ansawdd uchaf i ymwelwyr. Bydd pobl leol hefyd yn defnyddio'r cyfleusterau i ymwelwyr gan gyfrannu at incwm a swyddi lleol. Gall twristiaeth felly gyfrannu at raglenni adfywio gofodol ledled Cymru. Mae ymwelwyr yn chwilio'n gynyddol am brofiadau 'go iawn' wrth ddewis pethau i'w gwneud a'u gweld. Trwy gynllunio'r gwaith o reoli cyrchfannau yng Nghymru, bydd cymunedau twristiaeth lleol yn gallu penderfynu beth sydd bwysicaf i'w ddatblygu er mwyn cynyddu bodlonrwydd ymwelwyr a sbarduno cefnogaeth leol i dwristiaeth.

Wrth feithrin lle, byddwn yn canolbwyntio ar:

● **Rheoli cyrchfannau**

Bydd yn bwysig gwella apêl cyrchfannau ymwelwyr ledled Cymru. Mae Rheoli Cyrchfannau yn gysyniad syml, sy'n golygu cydweithio i reoli lleoedd. Yn aml, dim ond pan fyddant yn anfoddhaol y bydd pobl yn sylwi ar seilwaith twristiaeth fel cyfeirbwyntiau, arwyddion, meysydd parcio, cyflwr traethau, tai bach, gwybodaeth i ymwelwyr a sbwriel, ond gallant wneud y gwahaniaeth rhwng ymwelydd bodlon ac un anhapus. Dylai'n prif gyrchfannau, dinasoedd a threfi sy'n ganolfannau roi sylw

arbennig i hyn gan ddod â rhanddeiliaid ynghyd i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i hybu twf economaidd. Hefyd, mae cyfleoedd i hyrwyddo mwy o hyblygrwydd yn y system gynllunio fel bod datblygiad priodol yn cyd-fynd ag anghenion lleol ac yn gallu cefnogi ffyniant yn y diwydiant twristiaeth yn y dyfodol.

- **Blaenoriaethu**

Yn ogystal â'r gwaith pwysig hwn ar lawr gwlad, bydd gofyn i Croeso Cymru weithio yn unol â set o feini prawf y cytunwyd arni i ddewis blaenoriaethau strategol eiconig i'w hyrwyddo. Mae cyrchfannau twristiaeth llwyddiannus drwy'r byd yn dangos mai pwysleisio'u cryfderau cydnabyddedig yw'r cam cyntaf i ddenu ymwelwyr sy'n gwybod fawr ddim os o gwbl am eu gwledydd. Dros amser, gall hynny fod yn fwy manteisiol na strategaeth o rannu adnoddau buddsoddi'n fwy cyffredinol a thenau.

- **Adfywio**

Er na ellir disgwyl i dwristiaeth ateb pob clwyf economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n bodoli mewn rhai rhannau o Gymru, gall helpu i gynnal economi gymysg, amrywiol a chynaliadwy. Mae cynlluniau adfywio sy'n gallu hybu cysylltiadau â diwylliant lleol hefyd yn gallu hybu twristiaeth ac ennyn balchder ac ymdeimlad o berthyn i'r fro.

- **Profiadau go iawn**

Mae angen i ni roi profiad sy'n rhoi naws am le unigryw trwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud pob cyrchfan yn lle arbennig. Trwy gydnabod a gwerthfawrogi'r rhinweddau hyn, gall cyrchfannau hyrwyddo eu hunain fel lleoedd unigryw – rhywbeth sy'n ddeniadol i ymwelwyr. Mae'n bwysig bod cymunedau lleol yn cael cymryd rhan yn y broses hon, a sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso didwyll o gynnes a chofiadwy.

- **Ffyrdd cynaliadwy o weithio**

Fel egwyddor gyffredinol, mae'n bwysig cefnogi a thynnu sylw at ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i wneud y diwydiant yn fwy cynaliadwy. Mae twristiaeth gynaliadwy'n golygu dewis datblygu'r math o dwristiaeth sy'n cyfrannu fwyaf at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae hyn yn gofyn am gydbwysedd rhwng effaith twristiaeth ar yr amgylchedd a'i chyfraniad at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd y cymunedau sy'n ei chynnal. Mae'r amgylchedd wedi tyfu'n destun pryder mawr i gwsmeriaid a'r Llywodraeth fel ei gilydd. Mae pobl yn fwyfwy awyddus i leihau eu hól troed carbon yn eu bywydau bob dydd a'u dewisiadau teithio. Mae targedau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn ategu pwysigrwydd y mater byd-eang hwn.



Gwahoddiad

Marchnad Stryd, Gŵyl Fwyd Y Fenni

Mae'r strategaeth hon yn gosod targedau twf uchelgeisiol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru rhwng 2013 a 2020. Mae'n ddogfen lefel uchel sy'n darparu ffocws strategol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a fydd yn helpu i gryfhau ein sefyllfa gystadleuol a gwella perfformiad y sector twristiaeth yma yng Nghymru.

Mae cynllun gweithredu manylach sy'n ategu'r strategaeth hon yn nodi'r camau uniongyrchol nesaf a phwy ddylai fod yn gyfrifol am eu cyflawni. Fodd bynnag, mae angen nod cyffredin ar draws y Llywodraeth, y diwydiant, a rhai â diddordeb ehangach mewn twristiaeth, i wireddu hyn. Fel gwlad fach, rydym mewn sefyllfa ddelfrydol i gydweithio fel tîm er mwyn llywio llwyddiant i Gymru.

Mae'r strategaeth hon, sy'n seiliedig ar waith ymchwil cadarn ac ymgynghoriad, yn estyn gwahoddiad i bawb sydd am weld twristiaeth yn llwyddo a ffynnu, i ymuno â'r tîm sy'n creu sector twristiaeth perfformiad uwch sy'n gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae gennym bob rheswm i fod yn obeithiol ynglŷn â thwf a llwyddiant yn y dyfodol, gan adeiladu ar gynnydd cadarn y blynyddoedd diwethaf. Cydweithio er lles twristiaeth mewn Partneriaeth ar gyfer Twf yw nod y strategaeth hon. Dyma wahoddiad i chi wneud eich rhan. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi er mwyn cyflawni dros Gymru.

Llwybr yr Arfordir – traeth Niwgwyl yn y pellter,
Bae Sain Ffraid, Sir Benfro

